



Nid yw ein disgwyliadau o ran ymddygiad wedi newid; rydym o hyd yn disgwyl i bob dysgwr fod yn **barod**, yn **barchus** ac yn **ddiogel** ar bob adeg. Mae'r atodiad hwn yn ychwanegu at ein Cod Dinasyddiaeth, ac nid yw'n cymryd ei le neu'n ei ddisodli.

Rydym yn cydnabod na all cymuned ein Coleg weithredu fel arfer ar hyn o bryd, ac mae ein ffordd o ddarparu addysg ar y campws wedi newid er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol ac arferion gweithio diogel. Byddwn yn parhau i adolygu a diweddarau'r atodiad hwn yn unol ag unrhyw newidiadau a wneir gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae lles a diogelwch ein dysgwyr a'n staff yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn. I sicrhau ein bod yn cadw dysgwyr a staff yn ddiogel pan ydynt ar y campws, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r disgwyliadau canlynol ynghylch ymddygiad:

Dysgwyr sy'n mynychu campws Coleg Penybont:

Mae'n **RHAID** i chi:

1. Ddilyn cyfarwyddiadau gan staff bob amser
2. Cydymffurfio â'r arferion gweithio diogel a roddwyd ar gyfer eich amgylchedd (e.e. gweithdy)
3. Dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol bob amser, y tu fewn a thu fas i adeiladau'r Coleg
4. Golchi'ch dwylo'n rheolaidd a defnyddio'r hylif golchi dwylo sydd ar gael
5. Dilyn yr holl arwyddion sy'n nodi llwybrau mynediad ac ymadael a llwybrau unffordd
6. Golchi'ch dwylo neu defnyddio hylif golchi dwylo cyn mynd i mewn i unrhyw amgylchedd dysgu
7. Gadael y campws ar unwaith ar ôl i'ch asesiad neu'ch sesiwn ddod i ben

Rhaid i chi **BEIDIO**:

1. Rhaid i chi beidio â dod i'r Coleg os oes unrhyw symptomau COVID-19 gennych a/neu y gofynnwyd i chi hunanynysu
2. Rhaid i chi beidio â dod i'r Coleg os ydych yn byw yn yr un cartref â rhywun sy'n cael eu gwarchod yn y categori 'eithriadol o agored i niwed'
3. Rhaid i chi beidio â mynd i mewn i unrhyw adeilad arall ar y campws yn ystod asesiadau ymarferol, ond mae gennych ganiatâd i fynd tu fas i gael awyr iach os ydych yn cadw pellter cymdeithasol
4. Rhaid i chi beidio â cheisio cael mynediad i fannau cymdeithasol neu fannau dysgu hunangyfeiriedig. Mae hyn yn cynnwys manau y nodwyd gan arwyddion 'ar gau', 'mynediad cyfyngedig' neu 'dim mynediad'

Cod Dinasyddiaeth | Atodiad COVID-19

Diweddarwyd Diwethaf: Mehefin 2020

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hyn, bydd gofyn i chi adael y campws ar unwaith. Mae hyn yn debygol o effeithio ar eich gallu i gwblhau asesiadau a chwblhau eich cymhwyster yn llwyddiannus.

Dysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu ar-lein a dysgu hunangyfeiriedig:

Mae'n **RHAID** i chi:

1. Fynychu sesiynau sydd wedi'u trefnu a'u rhoi ar yr amserlen, a rhoi gwybod i'ch tiwtor am unrhyw absenoldeb
2. Ymddwyn mewn modd parchus. Ni oddefir ymddygiad gwahaniaethol, ymosodol, na bwlio
3. Sicrhau eich bod yn gwisgo dillad addas
4. Sicrhau bod pobl eraill yn eich cartref neu'ch lleoliad yn ymwybodol eich bod chi ar fideo

Rhaid i chi **BEIDIO**:

1. Recordio neu dynnu lluniau o sesiwn heb ganiatâd pawb sy'n rhan o'r sesiwn neu'r alwad
2. Rhannu unrhyw recordiadau, lluniau neu sgrinluniau heb ganiatâd pawb sy'n cymryd rhan. Bydd methu â gwneud hyn yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth ynghylch preifatrwydd a chydysniad personol

Bydd methu â chydymffurfio â'r disgwyliadau ymddygiad a nodwyd yn yr atodiad hwn yn arwain at gamau disgyblu o dan y cod dinasyddiaeth.

Polisiâu ac Arweiniad Perthnasol

[Cod Dinasyddiaeth](#)

[Polisi Diogelu](#)

[Atodiad Diogelu - COVID-19](#)